CYNGOR CYMUNED EGLWYSWRW COMMUNITY COUNCIL.

Cynhalwyd cyfarfod o'r Cyngor Cymuned, Nos Fawrth 3ydd o Fai 2016 yn yr Hen Ysgol Eglwyswrw gan gychwyn am 8.00y.h.

Presennol

Cadeirydd: Lon Davies

Cynghorwyr: Enid Cole, Robin Phillips, Julie Charlton, Llinos Davies, Alwyn Evans, Ieuan Davies, Ceirwyn John.

Cynghorydd Sir:

Clerc: Helen Evans

Croeso'r Cadeirydd

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod

Ymddiheiriadau:- Cyng Keith Lewis

Cofnodion 05.04.2016

Cynigodd Enid Cole ac eiliodd Ieuan Davies fod y cofnodion yn gywir. Arwyddwyd y cofnodion gan y Cadeirydd.

Materion yn codi o'r cofnodion

1. Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro- Cais Cynllunio Pentre FFynnongroes. Clerc wedi derbyn ateb ynglyn ar ebost a danfonwyd yn dangos ein pryder ar sut mae'r cais wedi ei dderbyn. Kate Attrill or Parc Cenedlaethol yn fodlon mynychu cyfarfod Cyngor Cymuned er mwyn trafod. Gwybodaeth TAN 6 yw ddosbarthu I pawb gyn y cyfarfod yma. Cynigodd Alwyn Evans ac eiliodd Ceirwyn John I drefnu ar gyfer cyfarfod mis Medi. Clerc I gysylltu.

Gohebiaeth

2. Presept taliad cyntaf 2016/2017- £1,416.00
3. Cwmni Yswiriant Zurich – Penderfynwyd I adnewyddu y policy blynyddol £304.95. Cynigodd Alwyn Evans ac eiliodd Ceirwyn John i'r Cyngor dalu.
4. Cyfanswm yn y banc 25.4.16 - £3,747.76 yn cynnwys Presept.
5. Cinio Blynyddol – Fe fydd yn Cinio Blynyddol nos Wener 20fed o Fai yn Salutation. Fe fydd Julie Charlton yn gweud gweddi.
6. Cyngor Sir Benfro apel cynllunio Mr. N. Davies, Llain, Eglwyswrw. Llythyr I cadarnhau fod e wedi cael rhybudd a hysbysiad I gorfodi wedi eu gyhoeddi.
7. Archwiliad Blynyddol 2015/16 – Cadarnhaodd Helen Evans fod angen i'r archwliad blynyddol fod yn nwylo'r archwilwyr erbyn y 6ed o Fehefin. John Davies Cwmbettws fydd y Archwiliwr mewnol.
8. Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro Adolygiad Draft Cynllun Datblygu Lleol – Cwbwlhaewyd holiadur gan yr aelodau ac fe danfonwyd un copi yn ol i'r Awudurdod Parc Cenedlaethol.

Unrhyw Fater Arall

9. Llythyr wrth Stephen Crabb MP ynglyn a cyfarfod Diweddariad BT – Dosbarthwyd y wybodaeth I pawb.
10. Ebost wrth Robert Smith ynglyn a Cwrdd y Cofio St. Cristiolus 13.11.16. Cynigodd Ceirwyn John ac eiliodd Llinos Davies bod y Cyngor Cymuned yn rhoi torch eleni eto cost o £17.00.
11. Cyngor Sir Benfro – Er gwybodaeth yn unig fod yna newidiadau I sied gyda Mr. Hefin Evans, Nantyrhelygen Fawr, Eglwyswrw.
12. Fe ddywedodd Julie Charlton ei bod wedi cael cwyn oddiwrth Mr. a Mrs. D. Jenkins, Cross House, Eglwyswrw ynglyn ar gwaith sydd yn cael ei wneud gyda BT yn gynnar yn y bore ar y penwythnos. Helen I gysylltu gyda BT.
13. Fe gododd Alwyn Evans ynglyn ar arwyddion sydd yn cael ei rhoi ar y ffordd yn ystod y taith beiciau yn ddiweddar. Clerc I gysylltu gyda'r cwmni er mwyn cwyno am hyn.
14. Fe gododd Llinos Davies ei phryder ynglyn a cerrig ar ochr y ffordd tu allan I Ty Canol, Meline. Clerc I gysylltu gyda'r Cyngor Sir er mwyn iddynt cael ei symud.

Dyddiad y Cyfarfod nesaf: Nos Fawrth 7fed o Fehefin am 8.00y.h.

Terfynwyd y Cyfarfod am 9.00y.h.